**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae'r manylion i'w gweld yma.

**Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd J Turner

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr, Materion Ymgyfreitha
Cwnstabl J. Roberts – Heddlu De Cymru

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill, a T. Williams.

**2 DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD -** nodi'r datganiadau o fuddiant personol canlynol a gafodd eu gwneud ynglŷn â'r agenda yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda, "Rydw i'n adnabod un o'r ymgeiswyr".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Holmes mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda, "Rydw i'n adnabod un o'r ymgeiswyr".

**3 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau

Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 4 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2023 yn rhai cywir.

## 5 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 01.04.23 -21.05.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 21 Mai 2023 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

## 6 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 7 TRAFOD Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A/NEU GOFRESTRU:

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr CB ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais.

## 8 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 01.04.23 - 21.05.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 21 Mai 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**9 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 01.04.23 - 21.05.23**

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 21 Mai 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.40pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.